MENTERA

# Manyleb Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Datblygu – Llŷn ac Eryri (cyfnod mamolaeth) (0.8 FTE) |
| **Prosiect:** | Cyswllt Ffermio |
| **Rheolwr Llinell:** | Rheolwr Datblygu Rhanbarthol |
| **Cyflog:** | £34,298 pro rata |
| **Cytundeb:** | Cyfnod mamolaeth |

---

## Nod

Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer busnesau ac unigolion cofrestredig a darparu gwasanaeth rheolwr cleient i gwsmeriaid yn eu hardal gan alluogi pontio llyfn rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yn rhaglen Cyswllt Ffermio a'r darpariaethau sydd ar gael drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig ehangach a Llywodraeth Cymru.

## Prif Gyfrifoldebau

- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Datblygu Rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau Cyswllt Ffermio i ffermwyr o fewn yr ardal benodol, gan sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni a bod y gwasanaeth a ddarperir o'r safon uchaf
- Cyflawni rôl rheolwr cwsmeriaid yn yr ardal ddynodedig, gan sicrhau bod taith cwsmer y cleient yn parhau
- Defnyddio'r asesiadau pellter a deithiwyd i gefnogi datblygiad taith y cwsmer i ffermwyr
- Defnyddio'r Cynllun Datblygu Personol (CDP) fel arf ar gyfer datblygu taith y cwsmer
- Cefnogi bob busnes cofrestredig i gwblhau llinellau sylfaen
- Cysylltu â busnesau sydd wedi cofrestru ond ddim yn ymgysylltu â'r rhaglen yn rheolaidd
- Trefnu a hwyluso un digwyddiad SAE yn flynyddol, wedi'i dargedu at ffermwyr nad ydynt yn ymgysylltu er mwyn annog defnydd o'r gwasanaethau a chynyddu ymgysylltiad â'r rhaglen
- Cysylltu â ffermwyr fel rhan o raglen casglu data Lot 4
- Datblygu dealltwriaeth ddofn a hyrwyddo Rhaglen Cyswllt Ffermio yn ei chyfanrwydd o fewn yr ardal benodol
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i ffermwyr wrth ddarparu gwasanaethau Cyswllt Ffermio, prosiectau eraill Llywodraeth Cymru a/neu weithgareddau perthnasol eraill, a chyfeirio at y gwasanaeth neu'r ddarpariaeth briodol
- Sicrhau bod ymholiadau'n cael eu trin ar sail dealltwriaeth glir o ofynion y ffermwr a'r coedwigwr

- Meithrin perthynas agos gyda'r ffermwyr i adnabod eu hanghenion dysgu a datblygu, a thrwy hynny sicrhau amgylchedd o ddysgu parhaus lle gallant symud ymlaen o un maes i'r llall gan sicrhau gwell effaith a dysgu pellach
- Hyrwyddo pob agwedd ar y Gwasanaethau Cynghori a darparu arweiniad annibynnol ar gynghorwyr sydd ar gael o dan bob categori gwaith
- Cynorthwyo cwsmeriaid o fewn meysydd penodol i wneud cais am enghreifftiau o gyngor trwy'r Gwasanaethau Cynghori
- Cwblhau gwerthusiad effaith y Gwasanaeth Cynghori ar gyfer pob enghraifft o gyngor a gwblhawyd, gan nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen
- Cynorthwyo cwsmeriaid sy'n dymuno gwneud cais am hyfforddiant o dan Lot 2 o'r rhaglen Cyswllt Ffermio
- Cynorthwyo cwsmeriaid o fewn y maes penodol i wneud cais am y rhaglen Fentora
- Hyrwyddo'r rhaglenni ariannu amrywiol fel rhan o raglen Cyswllt Ffermio i'r diwydiant amaethyddol
- Bod yn aelod presennol a gweithredol o'r grŵp gwaith rhanbarthol, gan gyfrannu at y cynllunio ymlaen llaw ar gyfer Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol a darpariaeth Grwpiau Trafod yn y rhanbarth.
- Cefnogi'r Swyddogion Sector gyda'r digwyddiadau Ein Ffermydd yn yr ardal.
- Annog a mynd ati i hybu manteision meincnodi
- Cefnogi'r Swyddogion Sector gyda threfnu digwyddiadau Arddangos a Safle Ffocws o fewn yr ardal benodol
- Gweithio gyda'r Rheolwr Datblygu Rhanbarthol i nodi partneriaid cyflawni priodol a datblygu perthynas effeithiol ag asiantaethau allanol
- Gweithio'n agos gyda'r tîm Marchnata a Chyfathrebu i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo i'r gynulleidfa darged mewn modd effeithiol ac amserol
- Cefnogi'r broses recriwtio ar gyfer gweithgareddau a drefnir yn ganolog e.e. yr Academi Amaeth, mentora, clinigau, dechrau ffermio a chymorthfeydd un-i-un
- Mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd grwpiau trafod, cyfarfodydd tîm, digwyddiadau a sioeau, a hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau yn ôl yr angen
- Trefnu cyfarfodydd/digwyddiadau o bryd i'w gilydd i hyrwyddo gwasanaethau Cyswllt Ffermio yn yr ardal leol
- Lle bo'n briodol, sicrhau bod cofrestru ar gyfer digwyddiadau a phresenoldeb mewn digwyddiadau yn cael eu cofnodi yn unol â gofynion y CMS; a bod y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Ganolfan Wasanaeth mewn modd amserol
- Sicrhau bod yr holl weithgaredd o'r ansawdd gorau posibl ac yn cyd-fynd yn unol â gofynion y Cynllun Darparu, a mynd ati'n rhagweithiol o annog cwsmeriaid i roi adborth

- Sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig trwy weithio'n agos gyda'r Swyddogion Datblygu eraill, y tîm Technegol a'r tîm Marchnata a Chyfathrebu
- Cadw cofnodion manwl o'r holl weithgareddau a gwaith papur i hwyluso'r gwaith o fonitro a chyflawni targedau'r prosiect, yn unol â systemau adrodd a monitro'r prosiect a Llywodraeth Cymru
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a cynnal DPP mewnol i ddiweddaru gwybodaeth am y sector ac i hwyluso'r gwaith o ddarparu cefnogaeth i ffermwyr

**Arall**
- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn ôl yr angen
- Cynrychioli Mentera yn ôl yr angen

**Sgiliau a Phrofiad**

**Hanfodol**
- Addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfwerth, mewn
- amaethyddiaeth neu bwnc cysylltiedig, neu brofiad dangosadwy o weithio yn y diwydiant amaeth yng Nghymru
- Dealltwriaeth drylwyr o'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth yng Nghymru, gyda'r gallu i adnabod anghenion y diwydiant, y wybodaeth a'r gwaith ymchwil ddiweddaraf sy'n berthnasol i'r sectorau hynny.
- Gallu asesu a deall anghenion busnesau fferm/coedwigaeth yn glir, y
- gefnogaeth angenrheidiol a'u gofynion
- Dealltwriaeth o gyfrifon a chynlluniau busnes fferm/coedwigaeth
- Gwybodaeth ardderchog o'r ardal, gyda rhwydweithiau sefydledig
- Sgiliau cyflwyno a rhyngbersonol ar lefel uwch
- Gallu bod yn rhagweithiol a gyrru pethau ymlaen yn effeithiol, yn annibynnol ac fel rhan o dîm
- Sgiliau gweinyddol da
- Sgiliau hwyluso da
- Gwir uchelgais i ddatblygu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru
- Gwybodaeth drylwyr o raglen Cyswllt Ffermio
- Gallu cymell ei hun, ac yn gallu derbyn cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau er mwyn cyflawni targedau gyda ffocws clir ar ansawdd
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) llafar ac ysgrifenedig
- Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys - Windows; Meddalwedd cynhyrchiant (e-bost, prosesu geiriau, taenlenni, ffeilio data); Defnydd diogel o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd (chwilio a phori'r we, defnyddio gwefannau a chymwysiadau ar-lein)
- Os yn gweithio o adref am unrhyw adeg, bydd gofyn bod gennych gysylltiad rhyngrwyd addas yn barod.
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar
- Ar gael i weithio gyda'r nos neu benwythnosau yn ôl yr angen

**Dymunol**

- Profiad blaenorol o drefnu digwyddiadau

## Gwybodaeth Ychwanegol

Am sgwrs anffurfiol gallwch gysylltu Einir Williams ar 07985 379 905 neu einir.williams@mentera.cymru

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi ei chategoreiddio fel a ganlyn:**

- **Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:**
    - Diangen
    - Dymunol
    - Hanfodol ✓
- **Gallu yn yr iaith Gymraeg:**
    - Gwrando/Siarad: Lefel 5
    - Darllen/Deall: Lefel 5
    - Ysgrifennu: Lefel 5

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

### Sut i ymgeisio

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn 10 yb, dydd Mawrth, 24/03/2026

### Cyfweliadau

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn rhithiol ar ddydd Gwener, 27/03/2026.   Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

### Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran.  Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf

o’n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio’n hyblyg neu rannu’r swydd.